PENNAETH/*HEADTEACHER*
MR. DYLAN DAVIES

Ffôn/*Telephone* (01248) 600291
Ffacs/*Fax* (01248) 600082

YSGOL DYFFRYN OGWEN

YSGOL DYFFRYN OGWEN, FFORDD COETMOR, BETHESDA, GWYNEDD, LL57 3NN.
www.ysgoldyffrynogwen.org

Ein Cyfeirnod *Our Reference*	Eich Cyfeirnod *Your Reference*	Dyddiad 06/09/2019 *Date*

Annwyl Riant neu Warcheidwad

AROLWG YSGOL DYFFRYN OGWEN: 23-27 MEDI 2019

CYFARFOD RHIENI/GOFALWYR: 5.00yh, NOS LUN 23 MEDI 2019

Cadarnhaf y bydd yr ysgol hon yn cael ei harolygu yn fuan fel rhan o raglen arolygiadau ysgolion a drefnir gan Estyn, yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r llythyr hwn yn eich gwahodd i fynychu cyfarfod gyda'r Arolygydd a gynhelir yn ystod yr arolwg. Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni/gofalwyr disgyblion yr ysgol. Diben y cyfarfod yw i roi cyfle i chi fynegi eich barn am yr ysgol a'i gwaith fel y gellir cynnwys barn y rhieni/gofalwyr yn yr arolwg. Er y bydd yr Arolygydd am glywed eich barn ac y bydd yn ceisio ateb eich cwestiynau, ni fydd mewn sefyllfa i roi sylwadau ar eich barn. Bydd yr Arolygydd hefyd yn gallu dweud wrthych am drefn yr arolwg. Cewch fwy o fanylion ar y daflen atodedig.

HOLIADURON BARN RHIENI/GOFALWYR

Mae'r Arolygydd hefyd wedi gofyn i ni dynnu sylw pob rhiant/gofalwr at yr holiadur arlein a gofyn iddynt ystyried ei gwblhau. Mae'r holiadur yn gyfle ychwanegol i chwi gyflwyno eich sylwadau.

Mae'r holiadur ar gael arlein, https://vir.estyn.gov.uk mae'r cyfarwyddiadau ar y daflen atodir a'r dyddiad cau yw dydd Iau, Medi 12fed.

Hyderaf y gwnewch roi ystyriaeth ddwys i gefnogi'r ysgol a'i harolygiad.

Yn gywir,

Dylan Davies
Pennaeth

Cadeirydd y Corff Llywodraethol / *Chair of Governing Body*
Mr Godfrey Northam

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
Quality Mark Bronze Award / Gwobr Efydd Nod Ansawdd
Marc Gyrfa Cymru
Careers Wales Mark
ActiveMark
MarcActif
Cymru
2014-17